Mynychodd plant dosbarth 4 gyrsiau brodwaith yn Theatr y Werin yn ystod Gorffennaf a braf oedd gweld y bechgyn yn ogystal â'r merched yn ymroi i'r gwaith.

Ffarweliwyd â nifer o blant ar ddiwedd y tymor a dymunwn yn dda i Melanie Evans, Sioned Thomas, Lisa Humphreys, Karen Hughes a Simon Jones ym Mhenweddig, Alun Price, Alastair Maltman a Robert Evans ym Mhenglais a hefyd Adrian Paddock yng Nghaer Wysg.

Yn ogystal bu'n ddiwedd cyfnod i aelodau o staff yr ysgol. Gadawodd Mrs Barbra Paddock ei dyletswyddau amser cinio wedi nifer o flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol. Ein dymuniadau gorau iddi hi a'r teulu yn eu cartref newydd yng Nghaer Wysg. Cyflwynwyd rhodd iddi ar ddiwrnod olaf y tymor fel gwerthfawrogiad o'i gwaith dros y cyfnod y bu gyda ni.